# Gweithdrefnau Gêm Cashword Blocks




**Cyflwyniad**
Dyma'r Gweithdrefnau Gêm ar gyfer CASHWORD BLOCKS (y "Gêm"). Pan gaiff y Gêm ei chwarae, mae'r Rheolau ar gyfer Gemau Cardiau Crafu (y "Rheolau") a'r Gweithdrefnau hyn yn berthnasol. Gellir gweld y Rheolau mewn Safleoedd Manwerthu ac ar wefan y Loteri Genedlaethol yn **national-lottery.co.uk**.

Bydd gan unrhyw air neu ymadrodd yn y Gweithdrefnau hyn sydd ag ystyr penodol yr un ystyr â'r un a roddir iddo yn y Gweithdrefnau hyn neu yn y Rheolau (oni fydd y cyd-destun yn nodi'n glir fel arall).

**Manylion y Gêm**
Enw'r Gêm: **"CASHWORD BLOCKS"**
Rhif y Gêm: **"Gêm 1367"**
Pris Manwerthu: **£3 am bob Cerdyn Crafu**

Ceir 1 siawns mewn 3.45 o ennill Gwobr ar bob Cerdyn Crafu yn y Gêm hon. Argraffwyd 22,784,400 o Gardiau Crafu ar gyfer y Gêm hon i gychwyn.

**Sut i chwarae ac ennill**
Mae'r Ardal Chwarae yn cynnwys 13 ardal wedi'u nodi fel 'SCRATCH HERE FIRST – YOUR LETTERS' ("Adran Eich Llyhrennau"), 'BLOCK 1', 'BLOCK 2', 'BLOCK 3', 'BLOCK 4', 'BLOCK 5', 'BLOCK 6', 'BLOCK 7', 'BLOCK 8', 'BLOCK 9', 'BLOCK 10', 'BLOCK 11' a 'BLOCK 12' ("Bloc" yn unigol, "Blociau" gyda'i gilydd). Mae pob Bloc yn cynnwys rhif y Bloc, gair rhwng 3 a 5 llythyren, a'r gair 'PRIZE' (y "Blwch Gwobr").

I chwarae'r Gêm, rhaid i chi grafu'r haen gyfan oddi ar Adran Eich Llythrennau yn gyntaf i ddatgelu 18 o Symbolau Chwarae ("Eich Llythrennau"). Yna, dylech ond crafu'r Symbolau Chwarae hynny yn y Blociau sy'n cyfateb i'r llythrennau a ddatgelwyd gennych o dan yr haen yn Adran Eich Llythrennau.

Os caiff gofynion y Rheolau a'r Gweithdrefnau hyn eu bodloni, byddwch yn ennill Gwobr os byddwch, ar ôl crafu haen y Symbolau Chwarae yn y Blociau sy'n cyfateb i Eich Llythrennau, yn datgelu gair cyflawn o dan haen Bloc. Bydd y Wobr yn gyfwerth â'r Wobr a ddangosir o dan haen y Blwch Gwobr ar gyfer y Bloc hwnnw.

Gall chwaraewyr ennill hyd at 6 gwaith ar Gerdyn Crafu.

**Symbolau Chwarae ar gyfer Adran Eich Llythrennau a'r Blociau**

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Symbolau Chwarae | A | B | C | D | E | F |
| Symbolau Chwarae | G | H | I | J | K | L |
| Symbolau Chwarae | M | N | O | P | Q | R |
| Symbolau Chwarae | S | T | U | V | W | X |
| Symbolau Chwarae | Y | Z | | | | |

Bydd 18 o Symbolau Chwarae gyda'u Penawdau Chwarae cyfatebol yn ymddangos o dan haen Adran Eich Llythrennau. Bydd rhwng tri a phum Symbol Chwarae yn ymddangos ym mhob Bloc. Ni ellir cyfuno Symbolau Chwarae mewn un Bloc â Symbolau Chwarae a ddatgelir mewn Bloc arall i ffurfio gair. Dim ond y Symbolau Chwarae a'r Penawdau Chwarae y gellir eu defnyddio i chwarae'r Gêm.

Symbolau Gwobr a Phenawdau Gwobr

| Symbolau Gwobr | £3.00 | £5.00 | £6.00 | £10.00 | £20.00 |
|---|---|---|---|---|---|
| Penawdau Gwobr | **THREE** | **-FIVE** | **-SIX-** | **-TEN-** | **TWNTY** |
| Symbolau Gwobr | £25.00 | £100 | £1,000 | £10,000 | £300K |
| Penawdau Gwobr | **TWFIV** | **-HUND** | **-THOU** | **TNTHO** | **TRHTH** |

Bydd un Symbol Gwobr gyda'i Bennawd Gwobr cyfatebol yn ymddangos o dan haen y Blwch Gwobr ym mhob Bloc. Dim ond y Symbol Gwobr a'i Bennawd Gwobr cyfatebol o dan haen y Blwch Gwobr mewn Bloc y gellir eu defnyddio i gadarnhau swm y Wobr y gallech ei hawlio, os o gwbl, mewn perthynas â'r Gêm.

Y Gwobrau, Nifer y Gwobrau a Thebygolrwydd

| Y Gwobrau | | Nifer y Gwobrau Ar Ddechrau'r Gêm | Tebygolrwydd Bras (1 Mewn : ) Ar Ddechrau'r Gêm |
|---|---|---|---|
| Symbolau | Y Gwobrau | | |
| £3 | £3 | 2,126,578 | 11 |
| £5 | £5 | 1,594,892 | 15 |
| £6 | £6 | 759,492 | 30 |
| £6 | £3 x 2 | 455,659 | 50 |
| £10 | £10 | 683,482 | 34 |
| £10 | £5 x 2 | 455,804 | 50 |
| £20 | £20 | 151,838 | 151 |
| £20 | £10 x 2 | 151,917 | 150 |
| £20 | (£3 x 5) + £5 | 151,904 | 150 |
| £25 | £25 | 10,508 | 2,169 |
| £25 | (£3 x 5) + £10 | 16,285 | 1,400 |
| £25 | (£3 x 3) + (£5 x 2) + £6 | 16,283 | 1,400 |
| £25 | £3 + (£5 x 2) + (£6 x 2) | 16,253 | 1,402 |
| £100 | £100 | 360 | 63,290 |
| £100 | £25 x 4 | 357 | 63,822 |
| £100 | (£5 x 2) + (£20 x 2) + (£25 x 2) | 2,375 | 9,594 |
| £100 | (£10 x 2) + (£20 x 4) | 2,339 | 9,742 |
| £1,000 | £1,000 | 53 | 429,895 |
| £10,000 | £10,000 | 8 | 2,848,050 |
| £300,000 | £300,000 | 5 | 4,556,880 |

Wrth i'r Gwobrau gael eu hennill, bydd nifer y Gwobrau sydd ar gael ym mhob categori yn lleihau yn unol â hynny. Ar ôl i'r Wobr uchaf olaf gael ei dilysu, caniateir i Fanwerthwyr barhau i werthu'r Cardiau Crafu hynny sydd eisoes wedi'u hactifadu i'w gwerthu a chaiff unrhyw Gardiau Crafu nad ydynt wedi'u hactifadu eu tynnu'n ôl. Er mwyn dod o hyd i'r wybodaeth ddiweddaraf am y Gwobrau, ewch i **national-lottery.co.uk** neu ffoniwch Linell y Loteri Genedlaethol ar **0333 234 5050**. Ni fydd galwadau yn costio mwy na galwadau i rifau 01 a 02. Os yw eich tariff ffôn yn cynnwys galwadau i linellau tir, caiff galwadau i rifau 03 eu cynnwys ar yr un sail.

## Gwerth Gwobrau yn Y Gêm

Mae cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm yn cynrychioli 67.02% o gyfanswm gwerth enwol y Cardiau Crafu. £45,810,465 yw cyfanswm gwerth Gwobrau'r Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn.

Mae nifer y Gwobrau y gellir eu hennill gan y Cardiau Crafu a argraffwyd ar gyfer y Gêm i gychwyn yn cyfateb i nifer y Cardiau Crafu a gofnodwyd ar System Gyfrifiadurol Allwyn ac yr hysbyswyd y Comisiwn Hapchwarae amdanynt yn ffurfiol cyn gwerthu unrhyw Gardiau Crafu. Ni chaiff y manylion yn y Gweithdrefnau hyn eu diwygio er mwyn ystyried unrhyw Gardiau Crafu a werthir neu a gollir yn y dyfodol, na Chardiau Crafu a gaiff eu tynnu'n ôl yn y dyfodol (lle y caiff y Cardiau Crafu hynny eu tynnu'n ôl gan Allwyn heb wybod a ydynt yn Gardiau Crafu â Gwobrau).

## Cyffredinol

Os bydd unrhyw wrthdaro rhwng y Rheolau, y Gweithdrefnau hyn ac unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn o ran y Gêm hon, y Rheolau fydd drechaf, yna'r Gweithdrefnau ac yna unrhyw wybodaeth arall a gyhoeddir gan Allwyn..

18+

**GP GM1367**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY®

18+

**GP GM1367**
Allwyn Entertainment Limited, PO Box 287, Watford WD18 9TT.
Llinell y Loteri Genedlaethol 0333 234 5050. Codir taliadau fel uchod am alwadau.

THE NATIONAL LOTTERY®